RNIB
Cymru

Golwg gwahanol
See differently

# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg 2019-20

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

Cadeirydd: Dr Dai Lloyd AS

Aelodau o'r Senedd:
Nick Ramsay AS;
Janet Finch-Saunders AS;
Caroline Jones AS;
Mike Hedges AS

Ysgrifenyddiaeth: RNIB Cymru

Anfonir gwahoddiadau i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg at sefydliadau ac unigolion sydd â buddiant o ran golwg.

## 2. Cyfarfodydd grŵp

**Cyfarfod 1:** Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2019, 12.15 – 1.15pm Ystafell Gynadledda A yn Nhŷ Hywel, Senedd Cymru, Bae Caerdydd

**Yn bresennol:**

| Aelodau o'r Senedd a'u cynrychiolwyr | Ymddiheuriadau |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Darren Price (staff Dai Lloyd AS)<br>Mike Hedges AS<br>Mark Isherwood AS | Janet Finch-Saunders AS<br>Caroline Jones AS<br>Nick Ramsay AS |
| Angela Burns AS<br>Georgina Webb (Ymchwilydd i'r Ceidwadwyr Cymreig) | |

| **Rhanddeiliaid** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Ansley Workman, RNIB Cymru<br>Elin Edwards, RNIB Cymru<br>Ffion Lewis, RNIB Cymru<br>Betti Hunter, RNIB Cymru<br>Kirsty James, RNIB Cymru a chynorthwy-ydd personol<br>Olivia Shorrocks, Llywodraeth Cymru<br>Rhiannon Clarke, Llywodraeth Cymru David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig ar ran Llywodraeth Cymru<br>Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd<br>Eryl Williams, Cymdeithas Ryngwladol Glawcoma<br>Holly Mills, DeafBlind Cymru<br>Mike Austin, Cadeirydd Offthalmig Cymru Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio | John Sanders, Sefydliad y Deillion Caerdydd, Ymddiriedolwr<br>Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion<br>Fiona Jenkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Marilyn Campbell, Claf<br>Craige Wilson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Karen Phillips, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Bablin Molik, Sight Cymru<br>Andrea Gordon, Cŵn Tywys<br>Peter Jones, Cŵn Tywys<br>Heather Waterman, Prifysgol Caerdydd<br>Rebecca Colclough, RNIB Cymru<br>Sandy Harding, Coleg Nyrsio Brenhinol |

## Crynodeb o'r materion a drafodwyd

- **Croeso** - Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i'r cyfarfod. Cytunodd y Grŵp ar gofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. Dosbarthwyd ymateb y Gweinidog i'r trafodaethau a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghylch

darparu gwasanaethau adsefydlu i bobl sydd wedi colli golwg ledled Cymru.

- Dywedodd Ansley Workman y sicrhawyd sylw cadarnhaol sylweddol yn y wasg ers y cyfarfod diwethaf a gododd ymwybyddiaeth o rôl hanfodol a newid bywyd y Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg. Mae aelodau trydydd sector y grŵp yn parhau i gwrdd â CLlLC i godi pryderon ynghylch darpariaeth adsefydlu ledled Cymru.

- Rhoddodd Olivia Shorrocks gyflwyniad yn amlinellu datblygiadau o ran **gweithredu Mesurau Gofal Llygaid newydd Llywodraeth Cymru a chamau ar gyfer gwella perfformiad.** Mae adroddiadau cysgodol wedi bod ar waith ar draws Byrddau Iechyd ers mis Medi diwethaf gyda'r setiau data cyhoeddus cyntaf wedi'u cyhoeddi ar gyfer Ebrill 2019 ac yn fisol wedi hynny.
- Dangosodd y data cysgodol nad oedd digon o arian yn y system i gefnogi Byrddau Iechyd i wneud newidiadau ac atebion cynaliadwy. Dyrannwyd cronfa gwerth £4m i Fyrddau Iechyd i ddatblygu atebion arloesol a chynaliadwy i helpu i ymgorffori'r Mesurau. Fodd bynnag, roedd y cynigion ar y gronfa a ddaeth yn ôl o'r Byrddau Iechyd yn arbennig o wael a dim ond £3.3m a ddyrannwyd ar draws y Byrddau Iechyd gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu dyfarnu'r £ 4m llawn.
- Y flaenoriaeth yw sicrhau bod y rhai heb Ffactor Risg Iechyd yn cael eu dyrannu. Mae Andrew Goodall wedi gosod targed newydd, erbyn mis Rhagfyr 2019 fod yn rhaid dyrannu Ffactor Risg Iechyd i 98% o gleifion gofal llygaid. Mae'r Byrddau Iechyd wedi ymrwymo i gyflawni hyn.
- Dywedodd Olivia fod perfformiad yn erbyn y targed yn debygol o amrywio yn ystod y flwyddyn galendr hon ac y byddai'n disgwyl gwelliannau ar ôl mis Rhagfyr.

- Yna rhoddodd Dai Lloyd gyfle i'r Grŵp drafod. Trafododd y Grŵp, oherwydd cyfoeth y data R1, fod Byrddau Iechyd bellach yn gallu meintioli a chymhwyso bylchau yn well. Ond mae angen lefel arall o fanylion i benderfynu beth sydd ei angen ar gleifion nesaf e.e. pwy mae angen i'r R1 weld? ai arbenigwr, y nyrs ac ati.

- Nodwyd hefyd bod yn rhaid rhoi statws cyfartal i’r targedau newydd â thargedau RTT. Cyfeiriodd Darren at duedd bresennol bod cyllid ychwanegol ar gael yn aml er mwyn cyrraedd targedau RTT ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd angen newid meddylfryd diwylliannol i weld y ddau darged yn gyfartal.
- Gofynnodd Georgina Webb sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod Byrddau Iechyd yn cynnal yr ysgogiad y tu ôl i'r mesur dros y blynyddoedd i ddod. Ymatebodd Olivia gan ddweud y bydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar Fyrddau Iechyd i gyrraedd y targed o 95% gan y bydd y ffigurau ar gael yn gyhoeddus. Bydd gan RNIB ran allweddol i’w chwarae wrth herio perfformiad a hyrwyddo profiad cleifion.

---

**Cyfarfod 2:** Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019, 12.15 – 1.15pm
Ystafell Gynadledda A yn Nhŷ Hywel, Senedd Cymru, Bae Caerdydd

**Yn bresennol:**

| **Aelodau o’r Senedd a’u cynrychiolwyr** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Darren Price (staff Dai Lloyd AS)<br>Kirsty Foxhay, intern gyda Dai Lloyd AS<br>Ryland Doyle, (Staff Mike Hedges AS) | Janet Finch-Saunders AS<br>Caroline Jones AS<br>Mike Hedges AS<br>Nick Ramsay AS |

| **Rhanddeiliaid** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Sarah Hughes, Cadeirydd WAVIE (Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru)<br>Mike Austin, Offthalmolegydd Ymgynghorol<br>Gwyn Williams, Offthalmolegydd Ymgynghorol<br>Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd<br>Eryl Williams, IGA<br>Rhiannon Clarke, Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Beatty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Carly Buckingham, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Jill Newman ac Angie Nesbit (dros Skype), Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Heather Waterman, Athro Nyrsio ac Offthalmoleg, Prifysgol Caerdydd<br>Elin Edwards, RNIB<br>Ansley Workman, RNIB<br>Paul Pavia, Insight Wales<br>Lara Brock, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Claire Farren, RNIB<br>Marilyn Campbell, claf<br>Tim Palmer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Kim Dunn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig, Llywodraeth Cymru<br>Sarah O'Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru<br>John Sanders, claf<br>Olivia Shorrocks, Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru<br>Fiona Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Llywio Gofal Llygaid<br>Eileen Schott (claf)<br>Sali Davies, Optometreg Cymru<br>Peter Jones, Cŵn Tywys<br>Hayley Dixon Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Andrea Gordon, Cŵn Tywys<br>Owen Williams, Cyngor y Deillion Cymru<br>Katie Chapelle, Y Gymdeithas Strôc |

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**

- **Croeso** - Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i'r cyfarfod. Cytunodd y Grŵp ar gofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. Cylchredwyd ymateb y Gweinidog i'r adborth a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol ynghylch mesurau canlyniadau newyddion ar gyfer gofal llygaid.
- Gwnaeth Dr Jill Newman, BIP Betsi Cadwaladr a Carly

Buckingham, BIP Hywel Dda a Sharon Beatty, BIP Caerdydd & a’r Fro gyflwyno **Sut mae'r Gronfa Drawsnewid yn cefnogi newid i ofal llygaid ledled Cymru.**

- Eglurodd y claf, Marilyn Campbell, beth oedd ei phrofiad personol o apwyntiadau. Soniodd nad oedd wedi cael apwyntiad hyd yn hyn na chafodd ei ganslo, ers 2001. Mae ei hapwyntiad diweddaraf, ar gyfer mis Hydref, wedi’i aildrefnu ar gyfer mis Ionawr 2020.
- Tynnodd Heather Waterman sylw at y pryderon bod gan gleifion fynediad at grwpiau cymorth cleifion o fewn gwasanaethau eraill, pa mor hawdd yw cael gafael ar ddeunydd a gwybodaeth addysgol, a sicrhau yr aed i’r afael ag anghenion addysg a chymdeithasol.
- Nododd Elin Edwards fod y Mesurau Gofal Llygaid diweddar yn dangos bod 114,090 o gleifion R1 37% y tu hwnt i'w targed, a gofynnodd pryd y gallwn ddechrau gweld y gostyngiad yn y ffigurau?
- Ychwanegodd Mike Austin nad yw'r ffigurau yn peri syndod o fewn yr adroddiad gan fod angen mwy o amser i ddangos y gwelliannau yn y system.
- Awgrymodd Gwyn Williams y dylai Cymru fod yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn ac y bydd corff cyfreithiol ffurfiol i Gymru yn ei le cyn bo hir, drwy Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, a hynny i ddwyn yr holl arbenigedd ynghyd a lleihau gweithluoedd tameidiog.

---

**Cyfarfod 3:** Dydd Mawrth 10 Mawrth 2020, 12.15 – 1.15pm
Ystafell Gynadledda A yn Nhŷ Hywel, Senedd Cymru, Bae Caerdydd

**Yn bresennol:**

| **Aelodau o’r Senedd a’u cynrychiolwyr** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Darren Price (staff Dai Lloyd AS)<br>Lauren, intern gyda Dai Lloyd AS | Janet Finch-Saunders AS Caroline Jones AS<br>Mike Hedges AS<br>Nick Ramsay AS |

| **Rhanddeiliaid** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Elin Edwards, RNIB<br>Ansley Workman, RNIB<br>Nathan Owen, RNIB | Rhiannon Clarke, Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru |
| Claire Farren, RNIB<br>Marilyn Campbell, claf<br>Sharon Beatty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro<br>Eryl Williams, IGA<br>Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd<br>John Sanders, claf<br>Eileen Schott, claf<br>Paul Pavia, Insight Wales<br>Alyson Thomas, y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned<br>Malcolm Latham, Bwrdd CIC | David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig<br>Sarah O'Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru<br>Olivia Shorrocks, Rhaglen Gofal wedi’i Gynllunio Llywodraeth Cymru<br>Fiona Jenkins, Cadeirydd y Bwrdd Llywio Gofal Llygaid<br>Sarah Hughes, SENCOM<br>Heather Waterman, Prifysgol Caerdydd<br>Liz Price, Coleg Brenhinol Offthalmoleg |

**Crynodeb o’r materion a drafodwyd**

- **Croeso** - Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i’r cyfarfod. Cytunodd y Grŵp ar gofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. Dosbarthwyd ymateb y Gweinidog i'r adborth a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol.

- Cyflwynodd Paul Pavia, Insight Consulting Wales, ganfyddiadau’r adroddiad **“In the Line of Sight: understanding the barriers, challenges and opportunities of implementing the Welsh National Eye Care Measures”**.
- Rhoddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad i Lywodraeth Cymru yn awr, a chânt eu rhoi i gynulleidfa ehangach yn y dyfodol agos. Mae'r adroddiad yn

cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2019 a'i nod yw adeiladu ar y data rhifiadol sydd ar gael drwy'r Mesurau Gofal Llygaid Cenedlaethol, i ddarparu dealltwriaeth o faint o gynnydd a wnaed a'r heriau a wynebwyd wrth eu gweithredu, a rhoi cyd-destun i'r claf.

- Cadarnhaodd Paul fod yr adroddiad yn cynnwys 20 o argymhellion. Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn fras yn cynnwys: pryder unfrydol ynghylch pa mor hir y mae cleifion R1 yn aros am eu hapwyntiadau dilynol; fod gweithredu'r Mesurau wedi creu newid gwirioneddol i ddealltwriaeth o ran heriau canlyniadau cleifion; pryderon ynghylch systemau gweinyddu gwasanaethau gofal llygaid; problemau o ran rhoi cleifion yn y dosbarth cywir; heriau o ran deall capasiti o'i gymharu â galw, a deall rheolaeth y gwasanaeth. Roedd meysydd eraill yn cynnwys: heriau i recriwtio a chadw'r gweithlu, materion technoleg yn enwedig o ran diweddaru cofnodion, diffyg mynediad, deall y data a'r galw. Mae angen dadansoddiad cadarn o'r capasiti, a dadansoddiad o'r galw gan gleifion yn ôl is-arbenigedd i ddeall yr hinsawdd ar gyfer pob carfan o gleifion.
- Amlygodd Paul fod rhai Meddygon Ymgynghorol wedi codi pryderon am yr ymgyrch i gynyddu gofal cymunedol, ond nid oedd hyn yn cynrychioli'r mwyafrif o reidrwydd. Codwyd pryderon hefyd am y tensiwn i gyrraedd targedau o ran amseroedd o atgyfeirio at y driniaeth, ochr yn ochr â'r Mesurau. Soniodd Paul am y bwlch o ran gallu rhwng gwybodaeth a sgiliau, ond roedd yna awydd i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu gweld yn y lle iawn ar yr adeg iawn.
- Eglurodd Paul fod materion penodol i gleifion wedi dod i'r amlwg yn sgîl y grŵp ffocws cleifion a oedd yn rhan o'r ymchwil. Ymhlith y materion a godwyd roedd: gwybodaeth gymysg o'r Mesurau Gofal Llygaid. Roedd y disgwyliadau eisoes yn isel ac roedd anfodlonrwydd â'r weithdrefn neilltuo apwyntiadau, ond o ran triniaeth feddygol a gafwyd roeddent yn fodlon ar y cyfan. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â chanslo apwyntiadau dro ar ôl tro a welwyd fel ffactor a oedd yn peryglu gofal llygaid ac yn dwysau pryder a straen, ac yn effeithio ar iechyd meddwl cleifion.

- Cyflwynodd Alyson Thomas, Prif Weithredwr a Malcolm Latham, Is-gadeirydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned **"Adroddiad dilynol Gwasanaethau Gofal y Llygaid yng Nghymru".**
- Cadarnhaodd Alyson fod llawer o'r argymhellion yng nghyflwyniad Paul wedi'u hadleisio. Rhoddodd Alyson drosolwg byr o rôl y CIC (Cyngor Iechyd Cymuned) sy'n gweithredu ledled Cymru fel corff gwarchod cleifion.
- Amlygodd Alyson ganfyddiadau'r adroddiad ynghylch cwynion o ran gofal llygaid a oedd yn cynnwys: amseroedd aros, canslo apwyntiadau ac oedi o ran apwyntiadau.
- Yr adborth a gafwyd oedd y gallai trefnu apwyntiadau gael ei wneud yn well, ac anfonir rhybuddion am apwyntiadau yn rhy hwyr i wneud y trefniadau angenrheidiol i'w cyrraedd, ac mae'r ffactorau hyn yn achosi pryder a straen drwy gydol y broses.
- Ychwanegodd Alyson, o ystyried yr holl ymdrech, roedd ystadegau ym mis Awst 2019 yn dangos bod traean y cleifion mewn perygl ledled Cymru o hyd. Dangosodd data perfformiad y Byrddau Iechyd fod rhai wedi gwella, ond nad oedd eraill wedi gwella. Nododd Alyson fod Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i geisio lleihau'r rhestr sydd wedi cronni.
- Sylwodd Alyson fod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cymryd nifer o fisoedd i weld gwelliannau mawr, ond bod cronfa gynaliadwyedd gwerth £3.3m wedi'i chyflwyno i gynorthwyo byrddau iechyd i wella amseroedd aros.
- Daeth y cyflwyniad i ben trwy alw am ddysgu ar y cyd rhwng byrddau iechyd ar y lefel weithredol. Nodwyd yr angen adrodd wrth y byrddau iechyd eraill ynghylch adborth cleifion ac angen ymgyrch i ailgynllunio gwasanaethau. Hefyd, mae'n ofynnol sicrhau bod cyfathrebu gwell ar waith, a bod y cyfathrebu hwnnw wedi'i deilwra'n well ar gyfer anghenion unigol.
- Cadarnhaodd Sharon fod grwpiau gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu i edrych yn fanwl ar bob llwybr gofal, ac yna i ddosbarthu gwybodaeth am y cynnydd ar draws y byrddau. Bydd gwybodaeth am arfer da o ran gweithlu yn cael ei rhannu ym mis Gorffennaf.

- Nododd Ansley fod pryderon am ddyfodol y cynllun darparu gofal llygaid a gweithredu camau nad ydynt wedi’u cymryd hyd yma. Rydym yn aros am wybodaeth fanwl am hyn, ac am y camau nesaf ar gyfer gofal llygaid, a hefyd am y gofal dilynol yn y gymuned.

---

**Cyfarfod 4:** Dydd Mawrth 14 Gorffennaf 2020, 12.15 – 1.15pm
Cyfarfod rhithwir drwy Microsoft TEAMS

**Yn bresennol:**

| **Aelodau o’r Senedd a’u cynrychiolwyr** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd AS (Cadeirydd)<br>Darren Price (staff Dai Lloyd AS)<br>Ryland Doyle, (Staff Mike Hedges AS) | Janet Finch-Saunders AS<br>Caroline Jones AS<br>Mike Hedges AS<br>Nick Ramsay AS |

| **Rhanddeiliaid** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Ansley Workman, RNIB Cymru<br>Nathan Owen, RNIB Cymru<br>Heledd Williams, RNIB Cymru<br>Ryland Doyle (swyddog Mike Hedges)<br>Esther Weller, Sight Cymru<br>Eryl Williams, Cymdeithas Glawcoma | David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig<br>Sarah O'Sullivan-Adams, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Hughes, SENCOM<br>Karen Phillips, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |

| | |
|---|---|
| Fiona Jenkins, Cadeirydd Grŵp Llywio Iechyd Llygaid Cenedlaethol<br>Craige Wilson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe<br>Heather Waterman, Prifysgol Caerdydd<br>Tafsila Khan, gwirfoddolwr RNIB<br>Sarah Hughes, Cadeirydd Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru<br>John Dixon, RNIB<br>Liz Price, Coleg Brenhinol Offthalmoleg<br>Peter Jones, Cŵn Tywys Cymru<br>Rebecca Colclough, RNIB<br>Olivia Shorrocks, Llywodraeth Cymru Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio<br>Rhiannon Clarke, Llywodraeth Cymru Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio<br>Bablin Molik, Sight Cymru<br>Adele Francis, Cymdeithas Macwlaidd | Jonathan Mudd, Cŵn Tywys<br>Andrea Gordon, Cŵn Tywys<br>Owen Williams, Cyngor y Deillion Cymru<br>Sali Davies, Optometreg Cymru<br>Callum Hughes, Cydffederasiwn y GIG<br>Ian Moran, Fforwm Swyddogion Adsefydlu |

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd**

- **Croeso** - Croesawodd Dr Dai Lloyd AS bawb i'r cyfarfod. Cytunodd y Grŵp ar gofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir, yn amodol ar un newid gramadegol.
- Nodwyd bod y cyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod yr adroddiad 'In the Line of Sight' wedi'i ohirio oherwydd coronafeirws. Nid yw'r adroddiad wedi'i lansio eto oherwydd y sefyllfa bresennol.
- Dywedodd Fiona Jenkins fod y Gweinidog yr wythnos diwethaf wedi cytuno ar y cyllid i symud ymlaen â'r rhaglen ddigideiddio gofal llygaid. Mae byrddau iechyd wedi cael gwybod y byddant yn derbyn cyllid yn fuan ac yn datblygu cynlluniau i weithredu'r system dros y flwyddyn i ddod.

- Cyflwynodd Nathan Owen, RNIB **effaith COVID-19 ar bobl ddall a rhannol ddall**. Dywedodd fod y pandemig wedi gwaethygu llawer o anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes, fel diffyg mynediad at negeseuon iechyd cyhoeddus mewn fformatau hygyrch.

- Nodwyd hefyd bod y pandemig hefyd wedi cyflwyno ystod o heriau newydd, yn fwyaf arbennig cadw pellter cymdeithasol, sydd yn ei hanfod yn weledol a bron yn amhosibl i bobl sydd wedi colli eu golwg. Nid yw dangosyddion fel saethau ar y llawr ac arwyddion wedi'u gosod o amgylch archfarchnadoedd a strydoedd yn hygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg, sydd wedi gwneud dod o hyd i'ch ffordd yn annibynnol a chael mynediad at wasanaethau yn hynod o anodd.
- Un o'r ffyrdd wnaeth mater hwn amlygu ei hun yn gynnar yn yr argyfwng oedd mynediad at siopa bwyd. Cynyddodd y galw am siopa ar-lein yn ddramatig a dim ond pobl yn y categori gwarchod a oedd yn gallu cael slotiau dosbarthu â blaenoriaeth. Nodwyd bod RNIB yn Lloegr wedi gallu trefnu datrysiad gyda'r Adran Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer gwasanaeth atgyfeirio uniongyrchol i bobl sydd wedi colli eu golwg i gael mynediad i siopa â blaenoriaeth. Nid oedd yr ateb hwn ar gael yng Nghymru ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi parodrwydd i sefydlu gwasanaeth tebyg, er gwaethaf ceisiadau dro ar ôl tro.
- Daeth Nathan â'r cyflwyniad i ben trwy drafod mater arall, sydd wedi dod yn fwy o her wrth leddfu'r cyfyngiadau cloi – newid cynllun strydoedd a'r amgylchedd adeiledig. Nodwyd bod cyflymder gweithredu a diffyg asesiadau effaith cydraddoldeb cadarn yn golygu bod hygyrchedd yn aml yn cael ei ddad-flaenoriaethu sy'n gwneud ardaloedd cyhoeddus i bob pwrpas yn llefydd dim mynediad i bobl sydd wedi colli eu golwg. Bydd y sefyllfa hon yn parhau am gryn amser ac os na chaiff ei datrys, bydd yn eithrio pobl anabl o gymdeithas.

- Yna cyflwynodd ymgyrchydd RNIB Tafsila Khan ei phrofiad byw o fyw gyda cholli ei golwg yn y cyfnod clo. Ers i'r cyfnod clo gael ei leddfu mae hi wedi ei chael hi'n anoddach mynd o gwmpas yn annibynnol. Rhaid i aelodau'r teulu roi gwybod i Tafsila sut mae pethau wedi newid wrth i fwy o lefydd ddechrau agor. Er bod canol y ddinas yn llai prysur nid oedd yn hawdd cadw pellter o 2m oddi wrth eraill.
- Roedd Tafsila yn cofio sawl enghraifft o rwystrau yr oedd hi wedi dod ar eu traws sydd wedi cael effaith sylweddol ar ei

gallu i fynd o gwmpas yn annibynnol. Siaradodd Tafsila am adeg pan y gwnaeth hi wynebu ramp annisgwyl ar y stryd, nad oedd yno ar ei thaith flaenorol. Nid oedd hi'n gwybod a oedd hi'n cael mynd drosto neu beth oedd ei bwrpas. Mae'r math hwn o newid mewn cynllun yn ei hatal rhag mynd i lefydd ar ei phen ei hun ac mae'n rhaid iddi nawr ofyn i rywun fynd gyda hi oherwydd nad yw'n teimlo'n hyderus i wybod i ble y gall ac na all fynd.

- Mae'r nifer cynyddol o fyrddau a chadeiriau ar y strydoedd hefyd wedi achosi mwy o bryder oherwydd ei bod yn amhosibl gwybod ble maen nhw.
- Nid yw defnyddwyr ffon yn gallu dod o hyd i farcwyr cadw pellter cymdeithasol ar lawr siopau a phalmentydd.
- Gorffennodd Tafsila trwy nodi bod rhai o'r ofnau a'r pryderon yn cael eu hachosi trwy beidio â gwybod beth y byddwch yn dod ar ei draws a sut y bydd eraill yn ymateb pe byddech yn ddiarwybod yn mynd yn rhy agos neu gyffwrdd â rhywbeth. Mae hyn wedi rhoi tipyn o ergyd i'w hyder.
- Diolchodd Dai Lloyd i Tafsila am ei chyflwyniad pwerus ar realiti byw o ddydd i ddydd o dan y cyfyngiadau cyfredol a'r ffaith nad oes llawer, os o gwbl, o ystyriaeth wedi ei rhoi i bobl ddall a rhannol ddall, yn enwedig o ran cadw pellter cymdeithasol ac arwyddion.

- Gwnaeth Sarah Hughes sylw ar y cyflwyniad ei fod yn cyd-fynd â'r adborth a gawsant gan y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Mae teimlad o gael eu gadael ar ôl yn gyffredin ymysg teuluoedd. Mae llawer o'u gwaith presennol wedi ymwneud â lles teuluoedd tra nad yw eu plant yn yr ysgol. Fel arfer mae cefnogaeth yn cael ei rhoi trwy ysgolion ac mae llawer o deuluoedd yn cael anawsterau wrth gefnogi eu plant gartref ac mae'n anoddach cael gafael ar gymorth.
- Nododd Bablin Molik y model cymdeithasol o anabledd a'r ffaith bod pobl anabl yn cael eu gadael ar ôl er bod llawer o gamau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Rhaid i bobl anabl fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau i sicrhau bod cymdeithas yn parhau i fod yn hygyrch. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi bod y neges hon yn dod o Lywodraeth Cymru.

- Gorffennodd Bablin trwy dynnu sylw at rôl bwysig Swyddogion Adsefydlu ar gyfer y rhai â Nam ar eu Golwg (ROVI) wrth rymuso pobl sydd wedi colli eu golwg i ail-ymgysylltu â chymdeithas yn y 'normal newydd'.

- Dywedodd Peter Jones fod pobl â nam ar eu golwg yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a'u bod yn cael anawsterau gyda'r arferion anghyson a fabwysiadwyd gan weithredwyr. Mae rhai yn cyfyngu ar seddi penodol, ac mae eraill yn lleihau capasiti. Er bod Cŵn Tywys Cymru a sefydliadau eraill yn codi hyn yn barhaus, mae'n dal i fod yn fater ac awgrymodd lythyr gan Gadeirydd y grŵp at y Gweinidog Trafnidiaeth.

- Dywedodd Ansley Workman fod iechyd llygaid wedi bod yn ganolbwynt i'r grŵp hwn yn hanesyddol. Dywedodd fod yr holl faterion a nodwyd yn ystod y cyfarfod heddiw hefyd yn cael effaith ar allu pobl i fynd i'w hapwyntiadau gofal llygaid. Mae pobl yn dal i fod yn ansicr a ddylent fod yn mynd i apwyntiadau ai peidio ac a fyddai'n ddiogel gwneud hynny.
- Gorffennodd Ansley gyda newyddion da, cafodd Elin Edwards, Rheolwr Materion Allanol yn RNIB Cymru, y bydd pawb yn ei hadnabod o'r grŵp hwn, ei merch fach, Esme Megan Edwards ychydig wythnosau yn ôl.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol

Dyma rai o'r cynrychiolwyr a fu'n bresennol yn y Grŵp Trawsbleidiol dros y flwyddyn:

RNIB Cymru
Cŵn Tywys Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Sight Cymru
Cymdeithas Glawcoma
Cadeirydd Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru
Cymdeithas Macwlaidd
Deafblind Cymru

Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
Insight Wales
Conffederasiwn GIG Cymru
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

# Datganiad Ariannol Blynyddol 2020

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Nid oes treuliau ar gyfer y Grŵp | £0.00 |
| **Cost nwyddau** | Ni chafwyd nwyddau | £0.00 |
| **Buddiannau a dderbyniwyd gan y grŵp neu gan aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarperir i'r grŵp fel lletygarwch** Darparwyd yr holl luniaeth gan RNIB Cymru fel isod: | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 16 Gorffennaf 2019 | Cinio a lluniaeth ysgafn gan Charlton House Arlwyo | £116.25 |
| 12 Tachwedd 2019 | Cinio a lluniaeth ysgafn gan Charlton House Arlwyo | £116.55 |
| 10 Mawrth 2020 | Cinio a lluniaeth ysgafn gan Charlton House Arlwyo | £116.60 |
| Gorffennaf 2020 | Amserthnasol – cyfarfod rhithiol | Dim costau |
| **Cyfanswm costau** | | £349.40 |

DIWEDD